



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Eich canllaw
i frechiadau

Y pas a beichiogrwydd

Beth ddylech chi ei wybod a'i wneud
i amddiffyn eich babi



Mae'r pas ar gynnydd ar hyn o bryd, a babanod sy'n rhy ifanc i gael eu brechu sydd fwyaf tebygol o'i ddal.

Gall menywod beichiog helpu i amddiffyn eu babanod drwy gael eu brechu rhag y pas o wythnos 28 eu beichiogrwydd ymlaen.

Mae'r daflen hon yn disgrifio'r broblem a beth mae angen i chi ei wneud i amddiffyn eich babi rhag y clefyd difrifol hwn.

Beth yw'r broblem?

Mae'n siŵr eich bod chi'n meddwl bod y pas wedi'i ddileu ers tro, ond mae nifer y bobl sy'n cael y clefyd wedi cynyddu ers 2010 yn y wlad hon ac mewn gwledydd eraill. Yn 2012, gwelwyd cynnydd cyflym yn nifer yr achosion o'r pas gyda chynnydd mawr yn nifer y babanod ifanc oedd yn ei ddal.

Nid ydym yn gwybod pam mae hyn yn digwydd ond rydym wrthi'n ceisio darganfod pam. Y peth pwysig nawr yw amddiffyn y babanod ifanc sy'n fwyaf tebygol o fod yn sâl iawn os ydyn nhw'n dal y clefyd.

Pam ddylwn i boeni?

Mae'r pas yn glefyd difrifol a all achosi niwmonia a niwed parhaol i'r ymennydd. Bydd llawer o fabanod sydd â'r pas yn gorfod mynd i'r ysbyty ac mae'n bosibl y gall y clefyd eu lladd. Anaml iawn y mae rhywun yn marw o'r pas yn y DU ond mae mwy o fabanod wedi marw eleni nag yn y blynyddoedd diweddar.

Ond mae babanod yn cael eu brechu i'w hamddiffyn rhag clefydau?

Ydyn, ond yn gyffredinol mae'r babanod sydd wedi dal y pas yn rhy ifanc i ddechrau'r rhaglen frechu arferol ac felly nid ydyn nhw wedi'u hamddiffyn rhag y clefyd. Nid yw system imiwneidd babanod yn ymateb yn ddigonol i'r brechiad nes eu bod yn ddau fis oed ac mae angen tri dos arnyn nhw er mwyn eu hamddiffyn yn llawn.



Felly sut alla i amddiffyn fy mabi?

Yr unig ffordd i amddiffyn eich babi rhag cael y pas yn ystod ei wythnosau cyntaf yw drwy gael y brechiad eich hun yn ystod eich beichiogrwydd. Wedyn byddwch yn trosglwyddo rhywfaint o imiwnedd i'ch babi cyn y caiff ei eni. Yr adeg orau i gael y brechlyn yw rhwng wythnosau 28 a 32 eich beichiogrwydd ond gallwch gael y brechiad yn hwyrach, yn ddelfrydol cyn wythnos 38.

Dylech gael y brechiad hyd yn oed os cawsoch eich brechu pan oeddech chi'n blentyn neu os cawsoch y pas eich hun.

A yw'n ddiogel cael y brechiad yn ystod fy meichiogrwydd?

Mae menywod yn yr Unol Daleithiau yn cael y brechiadau hyn yn ystod eu beichiogrwydd. Er bod y brechiad y maen nhw'n ei gael ychydig yn wahanol i'r brechiad sy'n cael ei roi yn y Deyrnas Unedig, mae'r brechiad yn y DU yr un mor ddiogel. Mae'n fwy diogel o lawer i chi gael y brechiad na rhoi eich babi mewn perygl o ddal y pas.

Ond beth am sgil-ffeithiau'r brechiad yn ystod beichiogrwydd?

Nid oes unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y brechiad yn ystod beichiogrwydd. Efallai y cewch rai sgil-ffeithiau ysgafn sy'n gyffredin i bawb ee chwyddo, cochni neu gall fod yn dyner lle cawsoch chi'r pigiad yn eich braich. Mae sgil-ffeithiau mwy difrifol yn eithriadol o brin, yn enwedig ymhlith oedolion.

Beth ddylwn i ei wneud nawr i amddiffyn fy mabi?

Os ydych wedi cyrraedd wythnos 28 eich beichiogrwydd, bydd eich meddyg teulu neu eich bydwraig yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad i chi gael y brechiad. Os nad ydych wedi cyrraedd yr wythnos honno eto, dylech aros nes eich bod yn clywed ganddynt.

A fydd angen brechiad rhag y pas ar fy mabi pan fydd yn ddau fis oed os ydw i wedi cael y brechiad yn ystod fy meichiogrwydd?

Bydd, dylai eich babi gael y brechiad yn unol â'r rhaglen arferol.

Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Ewch i: www.nhsdirect.wales.nhs.uk
neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar
0845 46 47

Gallwch siarad â'ch meddyg teulu neu eich
bydwraig hefyd.

Gallwch gael copi o'r daflen hon drwy
e-bostio hplibrary@wales.nhs.uk neu
ffonio **0845 606 4050**

Mae'r daflen ar gael ar wefan imiwneiddio
Llywodraeth Cymru yn
www.cymru.gov.uk/imiwneiddio

Gallwch anfon unrhyw ymholiadau am y
daflen hon i'r cyfeiriad isod:

Yr Is-adran Diogelu Iechyd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: 0845 606 4050



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 8109 0

ISBN digidol 978 0 7504 8111 3

© Hawlfraint y Goron 2012

WG16652